Cabanau a chuddfannau

Trosolwg

Mae adeiladu caban neu guddfan yn weithgaredd dychmygus, hwyliog i blant (o unrhyw oed). Mae'n defnyddio sgiliau echddygol manwl a bras, a byddant yn profi'r boddhad o gael adeilad i chwarae ynddo y maen nhw wedi'i greu.



Gweithgareddau

Ewch i chwilio am ganghennau mawr, brigau a fflora (gellir gwneud hynny ymlaen llaw, neu gallai fod yn rhan o'r gweithgaredd). Casglwch eitemau eraill megis cynfasau/tarpolins, rhwymau bynji, rhaff a chortyn, ac ewch ati i adeiladu! Gall fod yn dipi ar gyfer tedi neu'n gwt bwyd i greu pitsas. Anogwch y plant i gynllunio eu cabanau a'u cuddfannau, eu creu a'u hadolygu, ac i wneud newidiadau mawr
(sgiliau echddygol bras) a bach
(sgiliau echddygol manwl).

Offer

- Canghennau/boncyff on
- Brigau bach
- Fflora (dail, mwsogl, blodau)
- Tarpolins/cynfasau/blancedi
- Rhwymau bynji
- Rhaff neu gortyn

Cwestiynau allweddol

Beth sydd ei angen arnoch i adeiladu?
Sut gallwn ni glymu'r holl ddarnau'n sownd wrth ei gilydd?
Pa rannau o'n corff rydym yn eu defnyddio i godi/symud y gangen yma?
Ble gallwch chi sefyll er mwyn i chi allu adeiladu'n ddiogel?

Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: drwy wthio rhaff/cortyn drwy bethau a thrwy blethu, clymu pethau'n sownd a thrin a thrafod eitemau bach eraill, maent yn gweithio ar gryfder eu bysedd, eu dwylo a'u harddyrnau.
- Sgiliau echddygol bras: drwy godi, cludo, cario a chadw cydbwysedd, maent yn datblygu sgiliau'r cyhyrau mawr, cryfder rhan uchaf y corff, a sefydlogrwydd y gwargenglau.

Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod – adeiladwch strwythurau syml â deunyddiau y mae'r plant yn gallu eu cyrraedd, gafael ynddynt, cropian drostynt, a'u defnyddio i'w helpu i sefyll.
Plant bach – defnyddiwch ddeunyddiau ysgafn y mae'n hawdd eu trin. Adeiladwch guddfannau mawr lle gallant gropian yn annibynnol.